

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(FFYRDD YMUNO AC YMADAEL TUA'R
GORLLEWIN YN NHRE IOAN A SANCLÊR,
SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn Nhre Ioan a Sanclêr, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A40 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Caiff cerbydau â llwythi annormal eu gwahardd rhag defnyddio'r llwybrau eraill a chânt eu parcio dros nos mewn cilfannau hyd nes bod y system rheoli traffig wedi ei symud ymaith. Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn hysbysu llwythi llydan am y cyfyngiad.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos (rhwng 19:00 o'r gloch a 07:00 o'r gloch) yn ysbeidiol o 13 Mawrth 2023 tan 30 Mawrth 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond ar un safle a restrir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn y bydd y ffyrdd ymuno ac ymadael ar gau ar unrhyw adeg benodol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://www.llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://www.llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (WESTBOUND SLIP
ROADS AT JOHNSTOWN AND ST CLEARS,
CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Johnstown and St Clears in the County of Carmarthenshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles, other than vehicles being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the A40 specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule.

Vehicles with abnormal loads will be prohibited from using the alternative routes and will be parked up into laybys overnight until the traffic management is removed. Dyfed Powys Police will notify wide loads of the restriction.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, is expected to operate overnight (19:00 hours to 07:00 hours) on an intermittent basis from the 13 March 2023 until the 30 March 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The slip road closures will only be at one site listed in the Schedule to this Notice at any given time.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A40 yn Nhref Ioan.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin ac sy'n dymuno ymuno â'r A40 fydd mynd ar y B4312 Heol Llansteffan tua'r gogledd, tua'r dwyrain ar Heol Sanclêr, Rhiw'r Gofeb a Heol Picton, tua'r de ar Lôn Morfa, yna tua'r gorllewin ar yr A4242 i ymuno â'r A40 wrth Gylchfan Pont Lesneven.

2. Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A40 yn Nhref Ioan.

Y llwybr arall ar gyfer yr holl gerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin ac sy'n dymuno ymadael â'r A40 fydd parhau tua'r gorllewin ar yr A40 i Gyffordd Travellers Rest, yna dychwelyd tua'r dwyrain ar y B4312 Heol Llysonnen/Hen Heol Sanclêr i Heol Llansteffan.

3. Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr A40 yn Sanclêr.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno ymadael â'r A40 fydd aros ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin at Gylchfan Sanclêr, yna cymryd yr allanfa ar yr A4066 Heol Dinbych-y-pysgod tua'r dwyrain a'r A4066 Stryd Fawr tua'r de.

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles and Alternative Routes

1. The length of the A40 westbound entry slip road at Johnstown.

The alternative route for westbound vehicles wishing to join the A40 will be via the northbound B4312 Llansteffan Road, eastbound on St Clears Road, Monument Hill and Picton Terrace, southbound on Morfa Lane, then westbound on the A4242 to join the A40 at Pont Lesneven Roundabout.

2. The length of the A40 westbound exit slip road at Johnstown.

The alternative route for all westbound vehicles wishing to exit the A40 will continue westbound on the A40 to Travellers Rest Junction, then return eastbound on the B4312 Llysonnen Road/Old St Clears Road to Llansteffan Road.

3. The length of the A40 westbound exit slip road at St Clears.

The alternative route for traffic wishing to exit the A40 will be to remain on the westbound carriageway to St Clears Roundabout, then take the exit onto the eastbound A4066 Tenby Road and the southbound A4066 High Street.